cymorth cymru
connect • strengthen • influence

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# UWCHGYNHADLEDD AILGARTREFU CYFLYM

## RHAGLEN

## 24 MEDI 2025



cymorth cymru
connect • strengthen • influence

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

| | |
|---|---|
| **09:30** | **COFRESTRU A LLUNIAETH** |
| **10:00** | **CROESO A SYLWADAU AGORIADOL**<br>• **Katie Dalton, Cymorth Cymru**<br>• **Matt Downie, Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd**<br>• **Bev Luchmun, Llywodraeth Cymru** |
| **10:10** | **ARBENIGWYR DRWY BROFIAD: EFFAITH AILGARTREFU CYFLYM AR BOBL**<br>Er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer heddiw, byddwn yn clywed gan arbenigwyr drwy brofiad, sy'n myfyrio ar eu profiadau o ailgartrefu cyflym a'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw. |
| **10:20** | **ARCHWILIAD DWFN O AILGARTREFU CYFLYM**<br>• **Amy Carter, Llywodraeth Cymru**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r 'archwiliad dwfn' o ailgartrefu cyflym, gan rannu arferion da a'r hyn a ddysgwyd o'r ymarfer, y rhwystrau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu a'r atebion a ddatblygwyd mewn ymateb, ynghyd ag argymhellion ar gyfer parhau i wreiddio ailgartrefu cyflym ledled Cymru. |
| **10:30** | **MYFYRDODAU LLEOL AR YR ARCHWILIAD DWFN**<br>• **Cheryl Emery, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**<br>• **Katie Clubb, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br>• **Laura Garvey-Cubbon, Cyngor Caerdydd**<br>Bydd pob un o'r tri awdurdod lleol a gymerodd ran yn yr 'archwiliad dwfn' yn myfyrio ar y canfyddiadau, yr heriau a'r llwyddiannau yn lleol, a sut mae'r ymarfer archwiliad dwfn wedi llywio eu dull gweithredu o safbwynt ailgartrefu cyflym. |
| **11:15** | **ENNYN YMRWYMIAD STRATEGOL: DATA AC ARWEINYDDIAETH**<br>• **Nigel Jones, Cyngor Sir Dinbych**<br>• **Nichola Harris, Cyngor Sir Dinbych**<br>• **Emma O'Brien, Cyngor Castell-nedd Port Talbot**<br>• **Mark Edwards, Cyngor Castell-nedd Port Talbot**<br>Bydd y cyflwyniad hwn i'r cyfarfod llawn yn tynnu sylw at sut mae dealltwriaeth dda o nifer a phroffil yr aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sydd yn ddigartref, ac yn helpu i ennyn ymgysylltiad uwch swyddogion a'r Cabinet â'r argyfwng. Mae'r data hefyd yn hanfodol er mwyn targedu adnoddau, datblygu atebion tai priodol a deall y cynnydd o ran lleihau dibyniaeth ar lety anaddas. |

| | |
|---|---|
| 11:45 | **EGWYL A LLUNIAETH** |
| 12:15 | **Y WELEDIGAETH AR GYFER AILGARTREFU CYFLYM YNG NGHYMRU**<br>• **Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**<br>Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ddigartrefedd yng Nghymru yn dod yn brofiad prin, byrhoedlog na fydd yn cael ei ailadrodd, gan bwysleisio ei hymrwymiad i ailgartrefu cyflym yng Nghymru. |
| 12:30 | **Y CYFLENWAD TAI: CYNYDDU'R STOC TAI A'I GWNEUD YN GYDNAWS Â'R GALW ER MWYN DIWALLU'R ANGEN O RAN DIGARTREFEDD**<br>• **Stuart Fitzgerald, Llywodraeth Cymru**<br>• **Sharon Stone, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**<br>• **Emily Feast, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**<br>• **Jessica Wright, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**<br>Mae gwella mynediad at dai cymdeithasol a fforddiadwy yn hanfodol i ailgartrefu cyflym, drwy gynyddu'r cyflenwad o dai a sicrhau bod datblygiadau a dyraniadau'n cyd-fynd ag anghenion pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn y sesiwn hon, byddwn yn clywed gan Lywodraeth Cymru am y safbwynt cenedlaethol, yn ogystal â chlywed gan awdurdod lleol sydd wedi cymryd camau i gyflawni hyn yn lleol. |
| 13:00 | **GWASANAETHAU CYHOEDDUS: BETH SY'N BWYSIG O RAN ATAL**<br>• **Bev Luchmun, Llywodraeth Cymru**<br>• **Anna Graham, Cyngor Caerdydd**<br>• **Siân Bunston, Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**<br>Derbynnir yn gyffredinol nad mater sy'n ymwneud â thai yn unig yw digartrefedd, ac mae gan amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus rôl hollbwysig i'w chwarae er mwyn gwneud digartrefedd yn brofiad prin, byrhoedlog nad yw'n cael ei ailadrodd. Yn y sesiwn hon, byddwn yn clywed sut mae dau ranbarth wedi datblygu dull partneriaeth o ddiwallu anghenion iechyd pobl sy'n ddigartref. |
| 13:30 | **CINIO A RHWYDWEITHIO** |
| 14:15 | **GWEITHDAI** |
| 15:05 | **SYMUD I'R GWEITHDY NESAF** |
| 15:10 | **GWEITHDAI** |
| 16:00 | **MYFYRDODAU**<br>• **Matt Downie, Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd**<br>• **Katie Dalton, Cymorth Cymru**<br>Myfyrio ar y trafodaethau a fu yn ystod y dydd ac edrych tua'r dyfodol, gan gynnwys cyfleoedd i'r rhai sy'n bresennol rannu eu barn. |
| 16:20 | **CLOI** |

cymorth cymru
connect • strengthen • influence

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

## GWEITHDAI

### CYNYDDU A CHYDWEDDU'R CYFLENWAD TAI

Yn y gweithdy hwn byddwn yn clywed gan **Gyngor Castell-nedd Port Talbot** a **Chyngor Sir Powys** ynghylch sut maen nhw'n cynyddu'r cyflenwad, a byddwn yn trafod yr heriau a'r atebion er mwyn llywio gweithredu lleol.

### ALLGYMORTH IECHYD AMLDDISGYBLAETHOL

Yn y gweithdy hwn, byddwn yn clywed gan ymarferwyr o **Gaerdydd a'r Fro** a **Chwm Taf Morgannwg** am eu gwaith partneriaeth ac allgymorth amlddisgyblaethol i ddiwallu anghenion iechyd pobl sy'n ddigartref.

### DATA AC ARWEINYDDIAETH

Dysgwch fwy am y gwaith mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** wedi'i wneud er mwyn mabwysiadu dull strategol o ailgartrefu cyflym, gan gynnwys ailstrwythuro timau, sicrhau cefnogaeth arweinwyr corfforaethol a gwleidyddol, a defnyddio data i ddeall a diwallu anghenion pobl yn well.

### CYNLLUN LESIO CYMRU: CYNYDDU'R CYFLENWAD YN Y SECTOR RHENTU PREIFAT

Bydd **Llywodraeth Cymru** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y mae awdurdodau lleol yn ei wneud gyda'r sector rhentu preifat i gynyddu'r cyflenwad yn y tymor byr, gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl sengl a modelau tai i'w cefnogi.

### GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID YM MAES CYFIAWNDER TROSEDDOL

Yn y gweithdy hwn byddwn yn clywed gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** am eu dull gweithredu nhw yng nghyswllt diwallu anghenion tai pobl sy'n gadael y carchar sef Built for Zero.

### LLEIHAU DIBYNIAETH AR LETY DROS DRO ANADDAS

Cawn glywed gan **Gyngor Sir Ynys Môn** a **Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** am eu dull o leihau dibyniaeth ar lety dros dro anaddas.

### AILGARTREFU CYFLYM, DYFODOL TEG: GWREIDDIO CYDRADDOLDEB YM MHOB CAM

Yn y gweithdy hwn, bydd **Tai Pawb** a **Chyngor Ffoaduriaid Cymru** yn archwilio sut y gall ailgartrefu cyflym gyflawni canlyniadau tecach yn ogystal â chartrefi. Byddwn yn canolbwyntio ar brofiadau ffoaduriaid a grwpiau eraill sydd mewn perygl o gael eu hallgáu, ac yn trafod yr heriau a'r atebion er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio mewn dulliau gweithredu lleol.